**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Ymchwiliad Craffu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 13 Ebrill 2023 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd T J Hennegan (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S Bennett | V A Holland | Y V Jardine |
| M S Tribe | C L Philpott | B J Rowlands |

**Hefyd yn bresennol**
Andrea Lewis, Aelod y Cabinet
Jon Tumelty, Cymdeithas Tai Pobl
Serena Jones, Cymdeithas Tai Coastal
Sarah Davies, Cymdeithas Tai Coastal

**Swyddogion**
Jane Whitmore Comisiynydd Strategol Arweiniol
Judith Williams, Rheolwr Gweithrediadau a'r Gwasanaethau Landlordiaid

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: A M Day, A J Jeffery, M H Jones and M Jones
Hefyd yn bresennol: Stuart Middleton, Cymdeithas Tai Caredig

---

35 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Dim

36 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

37 **Cofnodion**

Derbyniwyd y cofnodion gan y panel.

38 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

39 **Chymdeithasau Tai**

Diolchodd y Panel i Jon Tumelty o Gymdeithas Tai Pobl a Serena Jones a Sarah Davies o Gymdeithas Tai Coastal am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel ac am drafod y gyfres o gwestiynau a anfonwyd atynt cyn y cyfarfod, gan gynnwys:

a) Beth yw rôl ac amcanion allweddol eich sefydliad mewn perthynas â mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i leihau?
b) Beth yw'r heriau allweddol sy'n eich wynebu a sut ydych chi'n mynd i'r afael â'r rhain (beth arall y gellid ei wneud i'ch helpu chi fel sefydliad i fynd i'r afael â nhw ... yn enwedig o safbwynt y cyngor neu bartneriaeth)?
c) Ydych chi'n adrodd yn ôl i ddioddefwyr/unigolion sy'n adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol am yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, naill ai o ran y digwyddiad penodol y buont yn rhan ohono neu y rhoddwyd gwybod amdano, neu'n fwy cyffredinol? Ydych chi'n defnyddio'r adborth hwn i lywio a gwella'ch gwasanaethau?
d) Ydy eich sefydliad yn bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddiol mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynrychiolir heddiw? Os na, pam hynny a beth y gellir ei wneud i'ch helpu i wneud hyn o safbwynt cyngor neu bartneriaeth?
e) Pa mor dda ydych chi'n teimlo y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn cydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Abertawe a'i leihau o safbwynt eich sefydliad a'ch partneriaeth? Sut y gellid ei wella ymhellach?
f) Sut mae eich sefydliad yn gweithio gyda'r cyngor a phartneriaid eraill i fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol? Strategaethau, offer, ymyriadau a gwaith sy'n digwydd mewn cymunedau, rhowch enghraifft ddefnyddiol i roi cyd-destun. Sut y gellid ei wella ymhellach?
   Rydym yn edrych ar faint y mater ar draws Abertawe a byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech roi rhywfaint o ddata i ni, os yw hynny'n bosib, i'n helpu gyda hyn, yn bennaf: ar gyfer y blynyddoedd 2019, 2020, 2021, 2022:

- Sawl adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol y maent wedi'i dderbyn gan denantiaid?
- Faint o achosion y maent wedi'u symud ymlaen drwy eu prosesau?
- Sawl hysbysiad troi allan a roddwyd ganddynt?
- Faint o denantiaid sydd wedi gadael eu heiddo mewn gwirionedd?

Bydd y nodiadau llawn a gymerwyd o'r drafodaeth hon yn llunio rhan o Adroddiad Canfyddiadau'r Ymchwiliad. Bydd yr Adroddiad Canfyddiadau'n cael ei gyflwyno i'r Panel eto ar ddiwedd cam casglu tystiolaeth yr ymchwiliad. Yna caiff tystiolaeth heddiw ei hystyried ynghyd â'r holl dystiolaeth arall a gasglwyd pan fydd y Panel yn cwrdd i drafod a llunio casgliadau ac argymhellion yr ymchwiliad i'r Cabinet.

## 40 Cynllun Gwaith

Nodwyd Cynllun y Prosiect/y Flaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.

**Cadeirydd**